# Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

**Deddf Safonau Gofal 2000BSFERSS**

# Adroddiad Arolygu

**Asiantaeth Faethu Cyngor Sir Ceredigion**

**Aberaeron**

**Math o arolygiad – Pwyslais penodol**
**Dyddiadau'r arolygiad – Dydd Llun 16 Tachwedd, Dydd Mawrth 17 Tachwedd, Dydd Llun 23 Tachwedd 2016**
**Dyddiad cyhoeddi – Dydd Iau, 7 Ebrill 2016**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2016.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Crynodeb

### Ynglŷn â'r gwasanaeth

Mae gwasanaeth lleoli teuluoedd Cyngor Sir Ceredigion yn ymgymryd â recriwtio ac asesu gofalwyr maeth, ac yn darparu lleoliadau maethu i blant 0-18 oed. Gall plant gael eu lleoli gyda gofalwyr maeth cymeradwy ar gyfer maethu prif ffrwd neu ar gyfer maethu gan deuluoedd a ffrindiau (perthnasau). Mae datblygiadau diweddar y gwasanaeth hefyd yn darparu cynllun lleoliadau rhiant a phlentyn a chynllun "gofal cymorth". Mae Tîm Plant Anabl yr awdurdod lleol hefyd yn gweithredu cynllun cyswllt teuluol sy'n darparu gwasanaeth seibiant byr o fewn cylch gwaith maethu.

Mae'r gwasanaeth lleoli teuluoedd wedi'i leoli ym Minaeron, Aberaeron, sy'n adeilad pwrpasol sy'n cael ei ddefnyddio gan holl dimau gwaith maes y gwasanaethau cymdeithasol. Yn dilyn ymadawiad y rheolwr tîm blaenorol ar ddiwedd mis Mawrth 2015, mae'r tîm wedi bod dan reolaeth reolwr tîm dros dro, Julie Murphy.

Mae Tîm Plant Anabl yn dîm amlddisgyblaeth dynodedig sydd wedi'i leoli yn Aberystwyth. Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli gan Claire James.

Yr unigolyn cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth maethu yw Elfed Hopkins, Pennaeth Gwasanaethau Teuluoedd a Phlant. Heulwen Davies, Rheolwr Gwasanaeth Teuluoedd a Phlant , yw'r rheolwr llinell uniongyrchol ar gyfer y ddau wasanaeth.

Adeg yr arolygiad, roedd gan y gwasanaeth lleoli teuluoedd 50 o ofalwyr maeth, sy'n cefnogi 49 o blant a phobl ifanc. Roedd 11 o blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gydag Asiantaethau Maethu Annibynnol (gwybodaeth wedi'i chymryd o hunanasesiad gwasanaeth yr awdurdod lleol).Roedd gan y gwasanaeth lleoli teuluoedd ddau ofalwr sy'n gyswllt teuluol, ond nid oedd unrhyw blant yn derbyn gwasanaeth adeg yr arolygiad.

### Pa fath o arolygiad a gynhaliwyd?

Cynhaliwyd arolygiad â phwyslais penodol fel rhan o raglen reolaidd o arolygiadau'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Roedd yr arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yn edrych yn bennaf ar ansawdd bywyd y bobl ifanc sy'n byw gyda gofalwyr maeth yr asiantaeth.

Defnyddiwyd y dull canlynol:-

- Archwilio'r ffurflen casglu data blynyddol (ADC) a gwybodaeth o'r datganiad hunanasesu gwasanaeth (SASS)
- Cyfarfod cynllunio arolygiad â Rheolwr Tîm dros dro'r gwasanaeth lleoli teuluoedd a'r Rheolwr Gwasanaeth (Teuluoedd a Phlant)
- Trafodaethau â grŵp o ofalwyr maeth
- Trafodaethau â rheolwyr y gwasanaeth lleoli teuluoedd a'r Tîm Plant Anabl
- Trafodaethau â staff yn y gwasanaeth lleoli teuluoedd a'r Tîm Plant Anabl
- Trafodaeth â Swyddog Datblygu Gwasanaeth yr adran
- Archwilio naw holiadur a dderbyniwyd oddi wrth ofalwyr maeth
- Archwilio un holiadur a dderbyniwyd oddi wrth aelod staff

- Archwilio ffeiliau  wyth gofalwr maeth
- Archwilio ffeiliau pump o blant
- Archwilio datganiadau o ddiben y ddau wasanaeth, canllawiau plant sy’n derbyn gofal (LAC) a thaflen wybodaeth plant y tîm plant anabl
- Archwilio adolygiad ansawdd gofal blynyddol y gwasanaeth lleoli teuluoedd
- Archwilio cofnodion cyfarfod panel gofal maeth (x4)
- Archwilio pum  holiadur a dderbyniwyd oddi wrth aelodau'r panel
- Archwilio amrywiaeth o ddogfennau gwasanaeth ychwanegol, gan gynnwys cynllun busnes y tîm, gwybodaeth ynghylch ei raglen hyfforddi, cyfranogiad a'r cynllun maethu arbenigol.

**Beth mae’r gwasanaeth yn ei wneud yn dda?**

- Mae grwpiau cymorth gofalwyr maeth yn cwrdd yn rheolaidd, ledled y sir, i ofalwyr prif ffrwd a gofalwyr teulu a ffrindiau
- Mae staff y gwasanaeth lleoli teuluoedd yn cynnal grŵp cymorth ar gyfer plant y gofalwyr maeth (Chwyrligwgan), sy'n eu galluogi nhw i gwrdd unwaith neu ddwywaith y flwyddyn, ar gyfer hwyl a chefnogaeth.
- Mae amrywiaeth o ddulliau’n cael eu defnyddio i ymgynghori â phlant a chasglu eu barn
- Mae gofalwyr maeth yn gallu cyfrannu at gynllunio gwasanaeth drwy sefydliad y grwpiau cymorth a'r grŵp ymgynghori a chyfranogi ar gyfer gofalwyr maeth
- Mae'r gwasanaeth wedi ymgorffori cyngor arfer da Llywodraeth Cymru; "Amddiffyn Plant, Cefnogi Gofalwyr Maeth" yn ei drefniadau cymorth ar gyfer gofalwyr maeth
- Mae ymweliadau dechreuol ar gyfer asesiadau hyfywedd yn cael eu gwneud ar y cyd â gweithiwr cymdeithasol plentyn
- Cynigir ystod dda o hyfforddiant i ofalwyr, sy'n rhagori ar y cyrsiau hyfforddi craidd.

**Beth sydd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf?**

- Mae diwygiadau i'r canllaw i blant (LACSPAC) ar gyfer plant iau wrthi'n cael eu gwneud, er mwyn iddynt fod yn haws eu deall
- Mae dull "rhianta tîm" a mynediad at weithwyr arbenigol wedi'i gyflwyno’n gynharach er mwyn cefnogi gofalwyr maeth a chadw sefydlogrwydd lleoliadau
- Mae camau wedi'u cymryd i sicrhau bod yr holl adolygiadau gofalwyr maeth yn gyfredol, a'u bod yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen ar hyn o bryd
- Mae cynllun maethu arbenigol wedi'i sefydlu er mwyn bodloni anghenion pobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad heriol ac anghenion lleoliadau rhiant a phlentyn yn well.
- Mae cynllun "gofal cymorth" ar gyfer plant mewn angen ar waith, sydd â'r nod o leihau'r angen i blant orfod derbyn gofal
- Mae cod ymddygiad a phroses  arfarniadau wedi'u sefydlu ar gyfer aelodau panel maethu
- Mae newidiadau i drefniadau gweithio'r panel maethu wedi'u gwneud i gyd-fynd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac i wella effeithlonrwydd
- Mae goruchwyliaeth gofalwyr maeth y gwasanaeth lleoli teuluoedd yn digwydd yn unol â datganiad o ddiben y gwasanaeth
- Mae'r gefnogaeth tu allan i oriau ar gyfer staff y gwasanaeth lleoli teuluoedd wedi'i hadolygu, er mwyn bodloni anghenion gofalwyr maeth yn well

**Beth mae angen ei wneud i wella'r gwasanaeth?**

Gwnaed yr argymhellion arfer da canlynol:-

- Dylai'r gwasanaeth roi ystyriaeth ddyledus i'r Rheoliadau Gwasanaethau Maethu a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, sy'n nodi y dylai fod gan y rheolwr gymhwyster reoli cydnabyddedig
- Dylid adolygu'r trefniadau lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol a phriodol yn cael ei darparu'n fwy cyson i ofalwyr maeth
- Dylid adolygu darpariaeth LACSPAC er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn eu derbyn ar amser priodol. Dylai'r gwasanaeth hefyd ystyried a allai'r wybodaeth allweddol mae ei hangen ar blant wrth iddynt ddechrau derbyn gofal fod yn fwy hygyrch
- Rhoi mecanweithiau (a chefnogaeth ychwanegol lle bo angen) ar waith i alluogi plant i fynegi eu safbwyntiau'n effeithiol yn eu hadolygiadau LAC a'r broses adolygu gofalwyr maeth flynyddol
- Dylid cwblhau gwiriadau adnewyddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o fewn yr amserlen
- Mae angen i'r gwasanaeth wneud mwy o ymdrechion i sicrhau bod gan bob gofalwr maeth fynediad at hyfforddiant priodol a rheolaidd, er mwyn gwella eu datblygiad proffesiynol a'u galluogi nhw i fodloni anghenion y plant a fydd yn derbyn gofal
- Dylai arferion cofnodi gofalwyr maeth ddilyn polisi a gweithdrefnau'r gwasanaeth
- Dylid blaenoriaethu'r gwaith recriwtio gofalwyr cyswllt teuluol ychwanegol, er mwyn galluogi'r gwasanaeth i barhau i ddarparu lleoliadau seibiant byr.

## Ansawdd Bywyd

Yn gyffredinol, gwnaethom ni (AGGCC) ganfod bod dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn sail i arfer o fewn y gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod lles plant sy'n cael eu lleoli â gofalwyr maeth yr awdurdod lleol yn cael ei hyrwyddo.

Yn gyffredinol, mae anghenion unigol y plant yn cael eu cydnabod ac yn derbyn sylw, er nid dyma brofiad pob plentyn sy'n derbyn gofal. Er i ni weld tystiolaeth o symudiadau lleoliad cynlluniedig yn ffeiliau'r plant ac yng nghofnodion y panel derbyn, dywedodd gofalwyr maeth wrthym fod nifer o leoliadau brys yn dal i ddigwydd. Gwnaethon nhw adrodd am amrywiadau yn ansawdd yr wybodaeth a ddarperir pan gaiff plant eu gosod â nhw (yn anghyflawn a/neu wedi dyddio ar adegau), gan roi darlun anghywir o anghenion y plentyn. Er bod ffurflen "paru anghenion" ynghlwm wrth geisiadau am leoliadau, roedd yn amlwg wrth arolygu bod dewis lleoliad, mewn gwirionedd, wedi'i gyfyngu ar adegau. Gwelwyd bod hyn oherwydd anawsterau wrth recriwtio gofalwyr ychwanegol i raddau, a/neu anawsterau wrth "gael y lleoliad iawn yn y lle cywir". Yn ogystal, yr angen i sicrhau y gallai anghenion fwyfwy cymhleth plant sy'n derbyn gofal gael eu bodloni gan ofalwyr maeth sydd â'r profiad a'r sgiliau angenrheidiol. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi gweithredu i ymdrin â rhai o'r materion hyn, drwy benodi gweithiwr cymdeithasol ychwanegol yn benodol er mwyn sefydlu cynllun maethu arbenigol. Nod hwn oedd recriwtio gofalwyr sy'n cyd-fynd ag anghenion plant (plant hŷn yn arbennig) oedd ag ymddygiad a ganfuwyd i fod yn heriol, ar gyfer lleoliadau rhiant a phlentyn, a hefyd i ddarparu gofal cymorth i deuluoedd, er mwyn osgoi rhai plant rhag dechrau derbyn gofal. Roedd hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol wedi'i ddarparu i ofalwyr maeth adnabyddedig, ac er bod y gwasanaeth yn nyddiau cynnar ei ddatblygiad, gwelsom dystiolaeth yn un o'r ffeiliau a samplwyd o gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Dywedwyd wrthym ni hefyd gan y rheolwr tîm dros dro bod syniadau ychwanegol o ran recriwtio gofalwyr maeth newydd yn cael eu hystyried. Roedd effaith gweithgaredd recriwtio isel hefyd yn amlwg o fewn y Tîm Plant Anabl, oherwydd nid oedd y gwasanaeth yn gallu cynnig unrhyw leoliadau seibiant byr adeg yr arolygiad, am fod sawl gofalwr wedi ymddiswyddo yn ystod y misoedd diwethaf, ac roedd y gofalwyr a oedd ar ôl (un aelwyd) yn cymryd seibiant.

Yn gyffredinol, mae gan y plant lais ac maent yn cael eu hannog i fynegi eu barn, ond mae angen mwy o waith i sicrhau bod safbwyntiau'r holl blant yn cael eu clywed yn gyson. Gwelsom fod canllawiau i blant (LACSPACS) wedi'u hanelu at oedrannau penodol ar gael i'r plant sy'n derbyn gofal, er dywedodd gofalwyr maeth nad oeddent yn cael eu darparu bob tro. (Cyfrifoldeb gweithiwr cymdeithasol unigol y plentyn oedd hyn). Wedi ystyried yr adborth gan blant sy'n mynychu cyngor LAC y "dylid defnyddio geiriau neis a hawdd mewn gwybodaeth i blant a phobl ifanc", roedd gwaith yn cael ei wneud i ddiwygio'r LACSPACS i sicrhau eu bod yn ddealladwy, yn enwedig i blant ifanc neu blant sy'n llai llythrennog. Gwnaethom nodi bod y LACSPACS yn cynnwys ystod eang o wybodaeth ddefnyddiol, ond yn ein barn ni efallai bod cyfaint yr wybodaeth yn ormod i rai plant ei "gymryd i mewn" wrth iddynt ddechrau derbyn gofal am y tro cyntaf. Gwnaethom awgrymu, felly, gwneud yr wybodaeth allweddol mae ei hangen ar yr adeg honno yn fwy hygyrch. Gwelsom fod plant yn cael eu hannog i fynychu eu hadolygiadau LAC a gwelsom rai enghreifftiau da yn ffeiliau'r plant y gwrandewir ar eu safbwyntiau, ac y gweithredir arnynt (e.e. mewn perthynas â chysylltiad ag aelodau teulu a nodau / trefniadau byw hir dymor). Gwelsom hefyd fod rhai plant wedi eu cefnogi gan eiriolwyr

annibynnol, er mwyn sicrhau bod eu safbwynt yn cael ei gyflwyno'n glir a'i glywed. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod graddfa cyfranogiad y plant mewn penderfyniadau am eu gofal yn amrywiol. Roedd yn gadarnhaol darganfod, felly, bod gwaith wedi cychwyn i gynyddu eu hymwneud yn y broses adolygu LAC. Dywedwyd wrthym gan Swyddog Datblygu Gwasanaeth yr adran (y mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys cyfranogiad plant ym mhrosesau penderfynu'r awdurdod lleol) bod dull ymgynghori dwyieithog ar-lein wedi'i gomisiynu, ac roedd disgwyl y byddai'n ei wneud yn haws i blant fynegi eu barn. Roedd wedi'i arbrofi gyda grŵp o blant, ac roedd yr adborth hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol. Roedd trefniadau ar waith i blant gyfrannu at adolygiadau blynyddol gofalwyr maeth, ond er inni weld bod rhai ffurflenni ymgynghori wedi'u cwblhau, nid oedd hyn yn gyson. Gwelsom dystiolaeth o ymrwymiad yr awdurdod lleol i ddod â'r plant yn rhan o'r broses benderfynu yn ehangach, am fod grwpiau cyfranogol wedi'u sefydlu i ennyn safbwyntiau'r plant sy'n byw o fewn y Sir, gan gynnwys y sawl a oedd yn derbyn gofal, a'u galluogi nhw i ddylanwadu ar ddatblygiad y gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys grŵp Give Us Support (GUS), Bwrdd Ieuenctid Diogelu Plant Lleol a'r cyngor LAC. Roddwyd gwybod i ni gan y Swyddog Datblygu Gwasanaeth fod plant wedi eistedd ar baneli cyfweliad ar gyfer uwch benodiadau o fewn yr awdurdod lleol, a gofynnwyd i'r plant am adborth ynghylch eu profiad o dderbyn gofal, er mwyn llywio datblygiadau gwasanaeth pellach.

Yn gyffredinol roedd plant yn elwa ar wasanaeth sy'n cynnal eu diogelwch. Gwelsom fod gwiriadau diogelwch cartrefi wedi'u cwblhau, a bod trefniadau gofalu diogel ar waith. Gwelsom fod hyfforddiant craidd i ofalwyr maeth yn cynnwys cyrsiau ar amddiffyn plant, cymorth cyntaf ac iechyd a diogelwch, a'u bod yn cael eu cynghori ar y canllaw newydd a'u cefnogi i'w roi ar waith (e.e. ynghylch fideo newydd yr NSPCC ar beryglon tecstio, gan gynnig hyfforddiant ar ymwybyddiaeth e-ddiogelwch ac ad-dalu pris meddalwedd cyfrifiadurol "nannynet"). Gwelsom fod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu gwneud ar ofalwyr maeth ac aelodau teulu/cartref perthnasol cyn cymeradwyo, a dangosodd y ffeiliau a samplwyd fod gwiriadau wedi eu hadnewyddu. Serch hynny, gwnaethom nodi bod bwlch ar adegau rhwng dyddiad dod i ben y dystysgrif flaenorol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r dyddiad adnewyddu. Gwnaethom gynghori felly y dylai gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu cwblhau yn gyson o fewn yr amserlen ofynnol.

Cefnogir plant i lwyddo'n addysgiadol. Gwelsom fod disgwyliadau'r awdurdod lleol o ofalwyr maeth wedi'u dogfennu'n glir, a bod hyfforddiant craidd yn cynnwys cwrs ar hyrwyddo llwyddiannau addysgiadol plant. Mewn trafodaeth, dangosodd y gofalwyr maeth ddealltwriaeth o anghenion addysgiadol plant, a gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau plant o ofalwyr maeth yn hyrwyddo presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol neu goleg, gan annog plant i wneud eu gwaith cartref, eu helpu â darllen ac ysgrifennu, ac eiriol ar eu rhan i sicrhau eu bod yn derbyn gwasanaethau ychwanegol lle bo angen.

Mae plant yn mwynhau cynhesrwydd, cyfleoedd i ddatblygu ymlyniadau ac ymdeimlad o berthyn. Darparodd ffeiliau'r plant a gofalwyr maeth dystiolaeth o leoliadau sefydlog a chanlyniadau cadarnhaol i blant. Mewn trafodaeth, dangosodd y gofalwyr maeth ddealltwriaeth o anghenion y plant roeddent yn gofalu amdanynt, ac roeddent yn ymddangos yn frwdfrydig i'w helpu nhw i gyflawni sefydlogrwydd, integreiddio i fywyd teuluol a chyflawni eu potensial. Gwelsom fod rhai gofalwyr maeth wedi mynychu hyfforddiant "ymlyniad", a oedd yn rhoi mewnwelediad ychwanegol iddynt am effaith profiadau blaenorol y plant ar eu sefyllfa emosiynol ac ymddygiad presennol. Dywedodd y rheolwr tîm dros dro wrthym fod hyfforddiant pellach ar y model arferion "sylfaen

sefydlog" yn cael ei gynllunio hefyd. Roedd sylwadau yn yr adolygiad LAC ac adolygiad blynyddol gofal maeth yn cynnwys "mae __yn ffynnu yn ei leoliad", "maen nhw wedi derbyn __ am bwy ydynt" a "mae ___ yn darparu sefydlogrwydd a chefnogaeth". Dywedodd y rheolwr tîm dros dro wrthym fod gofalwyr maeth yn cael mynediad cynharach at gefnogaeth "rhianta tîm" a gweithwyr arbenigol, gyda chynlluniau cefnogi amlddisgyblaeth (a oedd yn cynnwys cefnogaeth i ofalwyr) i'w helpu i leihau perygl tarfu ar y lleoliad. Dywedodd gofalwyr maeth a oedd wedi bod yn rhan o hyn eu bod wedi gwerthfawrogi'r mewnbwn hwn, a dywedodd un gofalwr ei fod wedi "achub lleoliadau".

# Ansawdd Staffio

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar brofiad pobl ifanc sy’n defnyddio’r gwasanaeth a’u hansawdd bywyd yn y lleoliad. Ar yr achlysur hwn nid oedd AGGCC yn teimlo bod angen edrych yn fanwl ar ansawdd y staffio oherwydd:-

- Bod cymwysterau a phrofiad staff yn gymesur â’u swyddogaethau a’u cyfrifoldebau
- Dangosodd staff ymrwymiad i gynyddu eu datblygiad proffesiynol
- Roedd staff yn adnabod eu gofalwyr maeth yn dda, a gwnaethant ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r gwaith paru plant a gofalwyr.
- Bod adborth gan ofalwyr maeth yn dynodi lefelau uchel o fodlonrwydd ar lefel y cymorth a dderbynnir oddi wrth weithwyr cymdeithasol sy’n goruchwylio.

Serch hynny, gwnaethpwyd newidiadau yn ddiweddar i'r gwasanaeth lleoli teuluoedd, a oedd yn cynnwys diddymu'r swydd uwch ymarferydd. Adeg yr arolygiad, roedd yn rhy gynnar i bennu effaith y newidiadau hyn ar ddarpariaeth y gwasanaeth.

Roedd newidiadau staffio hefyd wedi bod o fewn y Tîm Plant Anabl. Adeg yr arolygiad diwethaf, roedd y gwasanaeth wedi'i staffio gan ddau weithiwr cymdeithasol rhan-amser profiadol. Serch hynny, roedd un aelod o staff wedi gadael y gwasanaeth ym mis Ebrill 2015, a'r llall ym mis Awst 2015. Roedd aelod o staff newydd rhan-amser wedi'i benodi ym mis Medi 2015, ac roedd y swydd ran-amser arall yn wag ar adeg ein harolygiad. Am nad oedd unrhyw blant yn derbyn gwasanaeth ar yr adeg hon, roedd yr effaith uniongyrchol ar y gwasanaeth yn fach, er ei bod yn amlwg bod bwlch wedi'i greu yn narpariaeth y gwasanaeth yn gyffredinol o achos prinder gofalwyr sydd ar gael a thîm staff llai o faint.

Bydd y thema hon yn cael ei hystyried yn ystod arolygiadau yn y dyfodol.

## Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar brofiad pobl ifanc sy’n defnyddio’r gwasanaeth a’u hansawdd bywyd yn y lleoliad. Nid oedd AGGCC o’r farn bod angen edrych ar ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth y tro hwn oherwydd:-

- Gwelwyd bod rheolwr dros dro'r gwasanaeth lleoli teuluoedd yn unigolyn profiadol ac addas, ac roedd adborth gan staff a gofalwyr maeth yn ystod ein hadolygiad yn gadarnhaol iawn
- Gwelwyd bod rheolwr y gwasanaeth lleoli teuluoedd yn unigolyn profiadol a oedd wedi'i gymhwyso'n briodol
- Roedd mecanweithiau ffurfiol ar waith i ymgynghori â phlant a gofalwyr maeth
- Roedd cyd-leoliad y gwasanaeth lleoli teuluoedd a'r timau plant o fewn yr adran yn cynorthwyo cyfathrebu rhwng y gweithwyr proffesiynol o dan sylw
- Roedd gwelliannau wedi'u gwneud i drefniadau/arferion gweithio'r panel maethu er mwyn bodloni gofynion rheoleiddiol a gwella effeithlonrwydd, e.e. roedd ymgeiswyr i'r panel wedi derbyn y gwiriadau gofynnol, defnyddir proses a thempled dogfen newydd a oedd yn gwahaniaethu'n glir rhwng yr amrywiadau/newidiadau mewn cymeradwyaeth ac eithriadau, a chynhelir dau gyfarfod busnes y flwyddyn yn ogystal â'r cyfarfodydd panel misol
- Darparai mecanweithiau sicrhau ansawdd gyfres o waith "gwirio a chloriannu" er mwyn cynnal safonau. Roedd adolygiad ansawdd gofal blynyddol wedi'i wneud, ynghyd â chynllun busnes tîm ar gyfer y flwyddyn bresennol

Serch hynny, gwnaethom nodi'r newidiadau a oedd wedi digwydd o ran rheoli'r gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf. Yn dilyn ymadawiad rheolwr blaenorol y tîm lleoli teuluoedd ar ddiwedd mis Mawrth 2015, roedd rheolwr tîm dros dro, Julie Murphy, wedi bod yn y swydd. Adeg yr arolygiad nid oedd gan Ms Murphy gymhwyster reoli gydnabyddedig. Dywedwyd wrth y rheolwr tîm dros dro a **rheolwr gwasanaeth, teuluoedd a phlant,** felly nad oedd yr arferion o fewn y gwasanaeth yn cyd-fynd â'r Rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Bydd y thema hon yn cael ei hystyried yn ystod arolygiadau yn y dyfodol.

## Ansawdd y Gofalwyr Maeth

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar brofiad pobl ifanc sy’n defnyddio’r gwasanaeth a’u hansawdd bywyd yn y lleoliad. Nid oedd AGGCC o’r farn bod angen ystyried ansawdd y gofalwyr maeth y tro hwn oherwydd:-

- Bod gofalwyr maeth yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd gan eu gweithwyr cymdeithasol goruchwylio
- Roedd gofalwyr maeth yn gallu derbyn cyngor a chefnogaeth gan 'fentoriaid' gofalwyr maeth profiadol
- Roedd adolygiadau blynyddol o ofalwyr maeth yn gyfredol ac yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen
- Darperir amrywiaeth dda o hyfforddiant i ofalwyr maeth, sy'n berthnasol i'w swyddogaethau a'u cyfrifoldebau
- Roedd nifer o ofalwyr maeth wedi derbyn diploma NVQ neu Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (QCF).

Serch hynny, gwnaethom nodi bod y nifer o gyrsiau hyfforddi a fynychwyd gan ofalwyr unigol yn amrywio cryn dipyn. Gwelwyd bod rhai gofalwyr yn dangos lefel uchel o bresenoldeb yn gyson, ond gwelsom o ddogfennau adolygiad blynyddol nad oedd gofalwyr eraill wedi gwneud unrhyw hyfforddiant o fewn y 12 mis diwethaf, er gwaethaf disgwyliadau'r gwasanaeth, anogaeth gan eu gweithwyr cymdeithasol goruchwylio a chymhellion ariannol i fynychu. Gwelwyd bod yr ymdrechion i fynd i'r afael â'r mater hwn yn barhaus, a dywedodd gofalwyr maeth wrthym fod rhaglen hyfforddi flynyddol wedi'i hanfon yn awr, er mwyn ei gwneud yn haws cynllunio o flaen llaw. (Yn ystod ein harolygiad blaenorol, rhoddwyd gwybod i ni ei bod yn anodd ar adegau cael mynediad at gyrsiau o achos byr-rybudd a lleoedd cyfyngedig). Rhoddwyd gwybod i ni gan y rheolwr tîm dros dro yr ymgynghorwyd â gofalwyr maeth hefyd i ddarganfod a fuasent yn fwy tebygol o fynychu hyfforddiant yn ystod y nosweithiau neu benwythnosau. Serch hynny, am mai dim ond ychydig o ofalwyr maeth a fynegodd ddiddordeb, roedd y gwasanaeth yn hytrach yn edrych ar y posibilrwydd o ddarparu hyfforddiant ar-lein, i ategu'r rhaglen bresennol.

Gwelsom hefyd nad oedd yr holl ofalwyr maeth yn glynu wrth ofynion y gwasanaeth o ran cofnodion. Er bod disgwyl iddynt gadw cofnodion wythnosol, gwelwyd nad oedd y rhain wedi'u cwblhau'n gyson.

Bydd y thema hon yn cael ei hystyried yn ystod arolygiadau yn y dyfodol.

## Sut rydym yn arolygu gwasanaethau ac yn hysbysu am y canlyniadau

Rydym yn cynnal dau fath o arolygiad; sylfaenol a phwyslais penodol. Mae’r ddau yn ystyried profiad pobl sy’n defnyddio’r gwasanaethau.

- Mae **arolygiadau sylfaenol** yn asesu pa un a oes cyfiawnhad dros gofrestriad gwasanaeth a pha un a yw amodau’r cofrestriad yn briodol. Ar gyfer y rhan fwyaf o’r gwasanaethau, rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn bob tair blynedd. Mae gwarchodwyr plant cofrestredig, gofal y tu allan i’r ysgol, gofal sesiynol, meithrinfeydd a darpariaethau mynediad agored, ar y llaw arall, yn derbyn arolygiad bob pedair blynedd.

  Ar adeg yr arolygiadau hyn, byddwn yn sicrhau bod gan y gwasanaeth Ddatganiad o Ddiben eglur ac effeithiol a bod y gwasanaeth yn cyflawni’r ymrwymiadau a nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben. Wrth asesu a oes cyfiawnhad i gofrestriad bydd yr arolygwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu dangos hanes o gydymffurfio â’r rheoliadau.

- Bydd **arolygiadau sydd â phwyslais penodol** yn ystyried profiad y bobl sy’n defnyddio’r gwasanaethau, a byddwn yn edrych ar p'un a yw’r lleoliad yn cydymffurfio â’r rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl sy’n defnyddio’r gwasanaethau. Rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn rhwng arolygiadau sylfaenol. Bydd arolygiadau sydd â phwyslais penodol bob amser yn ystyried ansawdd bywyd y bobl sy’n defnyddio’r gwasanaethau a byddant o bosibl yn edrych ar feysydd eraill.

Gellid trefnu arolygiadau sylfaenol a rhai sydd â phwyslais penodol fel rhan o’r amserlen, neu eu cynnal mewn ymateb i bryderon.

Mae arolygwr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth yn ystod arolygiadau. Gallai’r rhain gynnwys;

- Siarad â phobl sy’n defnyddio’r gwasanaethau a’u cynrychiolwyr
- Siarad â’r staff a’r rheolwr
- Edrych ar ddogfennau
- Arsylwi ar yr amgylchedd a’r ymadweithio rhwng y staff a’r bobl
- Edrych ar sylwadau a wnaed mewn holiaduron a ddychwelwyd gan bobl sy’n defnyddio gwasanaethau, y staff, a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol

Rydym yn arolygu ac yn hysbysu ynglŷn â’n canfyddiadau dan ‘Themâu Ansawdd’. Cyfeirir at y rhai hynny sy’n berthnasol i bob math o wasanaeth yn ein hadroddiadau arolygu.

Ceir gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â’r hyn yr ydym yn ei wneud yn ein taflen ‘Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru’. Gallwch lawrlwytho hon o’n gwefan, Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru neu ffonio eich swyddfa ranbarthol leol AGGCC i ofyn i ni anfon copi atoch.